# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 27 Ionawr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## (311)v3

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 01-16)

(15 munud)

**NDM5935 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 01-16 - a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 19 Ionawr 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**Dogfen Ategol:**

[Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad]

## Cynnig i atal dros dro Reol Sefydlog 11.16 i ganiatáu i'r eitem nesaf o fusnes gael ei thrafod (5 munud)

**NNDM5940 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 4 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 27 Ionawr 2016.

## 4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-16)

(15 munud)

**NNDM5937 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 02-16 - a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Ionawr 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9; a

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

**Dogfen Ategol:**

[Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad]

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5934 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi setliad llywodraeth leol drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17;

2. Yn gresynu at gynigion i dorri'n sylweddol y cyllid a delir i nifer o awdurdodau lleol sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig ledled Cymru ac yn mynegi pryder ynghylch yr effaith y gallai hyn ei gael ar wasanaethau cyhoeddus lleol a chyfraddau'r dreth gyngor;

3. Yn gresynu ymhellach at fethiant Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n ddigonol â llawer o awdurdodau lleol gwledig ledled Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch effaith setliad llywodraeth leol 2016-17, sydd wedi arwain at ansicrwydd mawr mewn sawl rhan o Gymru; a

4. Yn credu bod archwilio'r fformiwla sy'n dyrannu cyllid llywodraeth leol yng Nghymru yn angenrheidiol i sicrhau na fydd setliadau Llywodraeth Cymru yn cael effaith anghymesur ar lawer o awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw am gyflwyno, yn y setliad hwn, y grant sefydlogi gwledig a gynigiwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn credu bod diwygio llywodraeth leol yn gyfle i gytuno ar fformiwla ariannu newydd sy'n ystyried tegwch, amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ac sy'n cael ei chyflwyno dros gylch ariannu tair blynedd.

## 6 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM5939 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai cau'r bwlch ffyniant gyda gweddill y DU fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru;

2. Yn nodi cynllun economaidd tymor hir Plaid Cymru fel modd i hybu twf economaidd cynaliadwy sy'n cynnwys sefydlu corff masnach newydd, banc cenedlaethol i Gymru a chomisiwn seilwaith cenedlaethol; a

3. Yn cefnogi dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy ar gyfer diwydiannau sylfaen, gan gynnwys y diwydiant dur yn arbennig.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith bod gweinyddiaethau olynol Llywodraeth Cymru ers 1999 wedi â methu mynd i'r afael â chau'r bwlch ffyniant yn effeithiol.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu ym mhwysigrwydd darparu strategaeth economaidd gytbwys ac integredig sy'n canolbwyntio ar allforio ac sy'n mynd i'r afael â thanddatblygiad Cymru a'r angen am fanc datblygu i Gymru i gefnogi ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi ym mhobl, busnesau a seilwaith Cymru.

*[os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'nodi' a mewnosod:

'cynllun economaidd tymor hir Llywodraeth y DU fel modd i hybu twf economaidd cynaliadwy'.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Mewnosod pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod y bydd y polisïau a nodir yn 'Cyrchfan Cymru', 'Buddsoddi Cymru' a 'Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru' yn cyflawni datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy ledled Cymru.

Cyrchfan Cymru

Buddsoddi Cymru

Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod er mwyn sicrhau dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy i'r diwydiant dur, ei bod yn ofynnol bod:

a) yr Undeb Ewropeaidd yn cymryd camau i fynd i'r afael â dympio dur gan Tsieina;

b) Llywodraeth y DU yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael phrisiau ynni uchel a etifeddwyd gan y blaid Lafur;

c) Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhyddhad ardrethi busnes;

d) lleiafswm o ran y safonau sy'n ofynnol ar gyfer dur o fewn prosesau caffael y sector cyhoeddus;

e) pecyn o gefnogaeth i staff y disgwylir iddynt golli eu swyddi.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'ac yn galw am ddileu ardrethi busnes ar offer a pheiriannau a sefydlu cwmni adfywio trefol i Bort Talbot.'

## 7 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

(60 munud)

**NDM5938 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod argyfwng tai yng Nghymru, gan nodi yn benodol:

a) bod targedau tai Llywodraeth Cymru ymhell o argymhellion yr adroddiad Holmans ar adeiladu tai a nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen erbyn 2031;

b) yr amcangyfrifir bod dros 90,000 o aelwydydd ar restrau aros tai cymdeithasol;

c) bod llawer o brynwyr tro cyntaf yn parhau i gael trafferth i fynd ar yr ysgol eiddo; a

d) bod yn rhaid gwneud mwy i amddiffyn tenantiaid rhag arferion annheg ac i wella ansawdd a diogelwch cartrefi gwael yn y sector rhentu preifat.

2. Yn credu bod angen mwy o uchelgais i sicrhau bod pob person yn cael cartref diogel a fforddiadwy, sy'n gallu bod yn ffactor allweddol o ran hybu iechyd, lles a chyfle, ac y dylai hyn gynnwys:

a) dyblu'r targed ar gyfer tai fforddiadwy i 20,000 yn ystod y Cynulliad nesaf;

b) cynllun rhentu i berchen i helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartrefi eu hunain heb flaendal; ac

c) gweithredu i wella ansawdd a diogelwch cartrefi yn y sector rhentu preifat a thribiwnlys eiddo preswyl i feirniadu ar anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid.

Adroddiad Holmans - 'Future Need and Demand for Housing in Wales' (Sasesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwynt 1a) a rhoi yn ei le:

bod targedau tai Llywodraeth Cymru ymhell o:

i) argymhellion adroddiad Holmans ynghylch adeiladu tai a nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen erbyn 2031;

ii) argymhellion adroddiad Sefydliad Bevan, 'The Shape of Wales to Come', a nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen erbyn 2028; a

iii) y farn a fynegwyd gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru ar fuddsoddi mewn tai cymdeithasol.

Adroddiad Sefydliad Bevan - The Shape of Wales to Come (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 2:

Dileu 'dylai' a rhoi 'gallai' yn ei le.

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys isbwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 2:

diwygio cyfraith tenantiaeth i gyflwyno rheolaethau rhent a rhoi tenantiaethau tymor hwy, mwy diogel ac o ansawdd uwch i rentwyr;

sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto;

datblygu cwmnïau tai o dan berchnogaeth gyhoeddus er mwyn ymateb i angen lleol.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod angen i Gymru weithredu rhaglen ddiwygio tai gynhwysfawr i gynyddu'r cyflenwad ac felly gwneud tai yn fwy fforddiadwy.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

**NDM5936 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Ffordd newydd ar gyfer gorllewin Cymru.

Yr angen am fwy o gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng ngorllewin Cymru a mwy o fuddsoddiad ynddynt.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Ionawr 2016 i'w hateb ar 27 Ionawr 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr yPleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'rGweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau i gleifion canser yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0674(HSS)

**2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd yng Ngwent? OAQ(4)0688(HSS)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0679(HSS)

**4. Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gapasiti'r GIG yng Nghymru i fodloni'r galw gan gleifion? OAQ(4)0683(HSS)

**5. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau iechyd i bobl anabl yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0673(HSS)

**6. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru am weddill y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0689(HSS)

**7. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ymgynghoriad ar y gweithlu gofal cartref? OAQ(4)0687(HSS)

**8. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth i bobl sydd â dementia? OAQ(4)0685(HSS)

**9. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella meddygaeth frys yng Nghymru? OAQ(4)0681(HSS)

**10. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cyfraddau bwydo ar y fron? OAQ(4)0678(HSS)

**11. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid byrddau iechyd? OAQ(4)0677(HSS)

**12. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau amseroedd amser mewn unedau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0684(HSS)

**13. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr ariannol byrddau iechyd Cymru? OAQ(4)0682(HSS)**W**

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngheredigion? OAQ(4)0539(HSS)

**15. Nick Ramsay (Mynwy):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella sut y cyflenwir gwasanaethau iechyd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0675(HSS)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

**1. David Rees (Aberafan):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am gyflwyno'r ardoll prentisiaethau? OAQ(4)0674(ESK)

**2. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi athrawon cyflenwi? OAQ(4)0673(ESK)

**4. Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am record Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyfnod sylfaen yn ystod y Cynulliad hwn? OAQ(4)0679(ESK)

**4. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid myfyrwyr yng Nghymru? OAQ(4)0680(ESK)**W**

**5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnwys llythyr cylch gwaith Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0669(ESK)**W**

**6. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd parhad y Coleg Cenedlaethol Cymraeg? OAQ(4)0672(ESK)**W**

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dysgu gydol oes yng Nghymru? OAQ(4)0670(ESK)

**8. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am yr adolygiad a arweiniwyd gan y Fonesig Sally Coates ynghylch addysg mewn carchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr? OAQ(4)0675(ESK)

**9. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar ag Ysgol Gyfun Ystalyfera? OAQ(4)0664(ESK)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb? OAQ(4)0676(ESK)

**11. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa hyfforddiant a fydd yn cael ei roi i staff addysgu mewn ysgolion cynradd er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau rhifedd perthnasol? OAQ(4)0665(ESK)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fenthyciadau i ôl-raddedigion? OAQ(4)0678(ESK)

**13. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol? OAQ(4)0671(ESK)

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Beth yw gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0666(ESK)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddysgu digidol mewn ysgolion yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0667(ESK)